

CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Mercher, 23 Mawrth 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Lloyd (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

C. Weaver, G. Caron, P. Jenkins, M. Norris, P. Lewis, T. Palmer a D.E. Williams

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

C. Moore – Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Caerfyrddin)
L. Rees-Jones – Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Caerfyrddin)
C. Lee – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Dinas Caerdydd)
N. Aurelius – Prif Weithredwr Cynorthwyol – Adnoddau (Cyngor Sir Torfaen)
J. Dong – Dirprwy Swyddog Adran 151/Prif Swyddog Cyllid (Cyngor Dinas a Sir Abertawe)
D. Edwards - Cyfarwyddwr y Gronfa (Cyngor Gwynedd)
J. Thomas - Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Penfro)
P. Latham – Pennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)
P. Griffiths – Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyllid a Gwella (Rhondda Cynon Taf)
T. Williams – Uwch-swyddog y Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Caerfyrddin)
M. Evans Thomas – Pen-swyddog y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Sir Caerfyrddin) [Cymryd Nodiadau]
J. Owen – Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Sir Caerfyrddin) [Cynorthwyo]
K. Evans – Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol (Cyngor Sir Caerfyrddin) [Cynorthwyo]
E. Evans – Pen-swyddog y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Sir Caerfyrddin) [Gweddarlledu]
S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd (Cyngor Sir Caerfyrddin)

Hefyd yn bresennol i gyflwyno adroddiadau:

A. Johnston – Hymans Robertson
E. Gough - Link Fund Solutions
K. Midl – Atebion Cronfa Gyswllt
R. Thornton - Atebion y Gronfa Gyswllt
N. Round - Northern Trust
A. Knell – Robeco
K. Robertson – Robeco
A. Quinn – Russell Investments
J. Leggate – Russell Investments
T. Paik - Russell Investments
S. Gervaise-Jones - bfinance

Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:

K. Cobb – Rheolwr Cyfrifo a Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn (Dinas a Sir Abertawe)
M. Falconer – Rheolwr Pensiwn (Dinas Caerdydd)
C. Hurst – Rheolwr y Gronfa Bensiwn (Cyngor Sir Powys)
D. Jones-Thomas – Rheolwr Buddsoddi (Cyngor Gwynedd)



Y. Keitch – Prif Gyfrifydd (Rhondda Cynon Taf)
D. Fielder – Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)
A. Bull – Pennaeth Pensiynau (TCC)

Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 12.42 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelod	Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Buddiant
Y Cynghorydd G. Caron	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod sy'n talu ac yn derbyn Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf, mae ei wraig yn aelod sy'n derbyn ac mae ei fab-yng-nghyfraith yn aelod sy'n talu
Y Cynghorydd P. Jenkins	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd
Y Cynghorydd P. Lewis	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Powys
Y Cynghorydd C. Lloyd	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd M. Norris	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd T. Palmer	Pob eitem ar yr agenda	Mae ei bartner a'i ferch yn aelodau o Gronfa Bensiwn Clwyd
Y Cynghorydd E. Williams	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed

[Sylwer: Ceir eithriad yn y Côt Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n caniatáu i aelod a benodwyd neu a enwebwyd gan ei Awdurdod i gorff perthnasol ddatgan y buddiant hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYD0BWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 1AF RHAGFYR, 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2021 yn gofnod cywir.

4. DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]



Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariad cynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:-

- Llywodraethu
- Sefydlu parhaus
- Gwasanaethau gweithredwyr
- Cyfathrebu ac adrodd
- Hyfforddiant a chyfarfodydd
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion yr awdurdod cynnal am eu cyfraniad i'r cyflwyniad yng nghyfarfod Cyngor Cyswllt Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod diweddariad yr Awdurdod Cynnal yn cael ei dderbyn.

5. CYNLLUN HYFFORDDIANT PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2022/2023

[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor y Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2022/23. Dywedwyd wrth y cyfarfod y lluniwyd cynllun hyfforddi PPC i ategu hyfforddiant presennol yr Awdurdod Cyfansoddol a bydd yn berthnasol i weithgareddau'r PPC o ran cyfuno cronfeydd. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiwallu anghenion hyfforddi aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, ond gellid hefyd ddiwallu anghenion aelodau'r Pwyllgor Pensiwn yn ogystal â chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiwn, os yw'n berthnasol.

Cynhelir sesiynau hyfforddiant 2022/2023 bob chwarter a byddant yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Gwybodaeth am gynnyrch
- Gwybodaeth am y Gronfa
- Buddsoddi Cyfrifol
- Dealltwriaeth o'r Farchnad

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad ar gynllun hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru 2022/23.

6. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2022-2025



[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes 2022-2025. Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod fod y Cynllun Busnes wedi'i ddrafftio yn unol ag Adran 6 o'r Cytundeb rhwng Awdurdodau. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor, byddai'r Cynllun Busnes yn cael ei anfon at bob Awdurdod Cyfansoddol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig.

Diolchwyd i'r Cadeirydd am ei waith caled a'i gyfraniad i'r Cyd-bwyllgor yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL cymeradwyo'r Cynllun Busnes.

7. ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 1 2022

[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Adolygiad Cofrestr Risg Ch1 2022. Nodwyd bod adolygiad wedi'i gynnal yn ystod y chwarter diwethaf o'r adran Llywodraethu a Rheoleiddio, risgiau G.1 i G.6. Crynhowyd canlyniadau adolygu pob risg mewn atodiad i'r adroddiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r newidiadau i Gofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

8. ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn manylu ar yr Adolygiadau Polisi Blynyddol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r polisiau canlynol:-

- Polisi Cyfathrebu
- Matrics Llywodraethu

Cymeradwywyd y polisiau hyn gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Rhagfyr 2019. Mae ail adolygiad blynyddol o'r polisiau wedi'i gynnal ac mae angen i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu gymeradwyo dogfennau sydd wedi'u diweddarau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r polisiau wedi'u diweddarau, fel y nodir uchod.

9. CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN AR Y CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU



[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i adroddiad i gymeradwyo argymhelliad is-grŵp y Cyd-bwyllgor Llywodraethu i benodi:

- Osian Richards o Gronfa Bensiwn Gwynedd fel Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.
- Ian Guy o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe fel Dirprwy Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (bydd yn ofynnol i'r dirprwy fynychu cyfarfodydd yn absenoldeb Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun).

Bydd y penodiad yn effeithiol yn syth ar ôl i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu gymeradwyo'r argymhellion, gyda deiliadaeth o ddwy flynedd. Os bydd yr unigolyn yn peidio â bod yn gynrychiolydd aelodau'r cynllun y bwrdd pensiwn lleol o fewn y cyfnod hwnnw o ddwy flynedd, bydd ei rôl fel cynrychiolydd/dirprwy gynrychiolydd aelodau'r cynllun hefyd yn dod i ben.

Cyfeiriwyd at safon uchel yr ymgeiswyr ar gyfer y swyddi a nodwyd y byddai'r ymgeiswyr llwyddiannus yn ased i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion o ran penodi, fel y nodir uchod.

10. DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR

[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:-

- Daliannau Cyfredol y Gronfa
- Cynnydd Lansio'r Gronfa
- Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a cherrig milltir yr Is-gronfeydd canlynol:-

- Cyfran 1 – Ecwiti Byd-eang
- Cyfran 2 – Ecwiti y DU
- Cyfran 3 - Incwm Sefydlog
- Cyfran 4 – Marchnadoedd Datblygol

Mewn ymateb i ymholiad, cynghorwyd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu y byddai'n cael y wybodaeth ddiweddaraf dros y 6 mis nesaf, wrth i Dye & Durham fynd ati i gaffael Link.



PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddar gan y Gweithredwr.

11. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AT 31 RHAGFYR 2021

[NODER: Roedd y Cyngorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar yr Adroddiadau Perfformiad fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr, 2021. Nodwyd bod yr is-gronfeydd wedi perfformio'n uwch/tanberfformio yn erbyn eu meincnodau priodol, fel a ganlyn:

- Perfformiodd Cyfleoedd Byd-eang 0.71% gros / 0.34% net yn uwch
- Perfformiodd Twf Byd-eang 0.01% gros yn fwy / 0.44% net yn is
- Perfformiodd Marchnadoedd sy'n Amlygu 0.24% gros / 0.13% net yn uwch
- Perfformiodd Cyfleoedd y DU 1.12% gros / 0.68% net yn uwch
- Perfformiodd Bond Llywodraeth Fyd-eang 1.06% gros / 0.83% net yn uwch
- Perfformiodd Credyd Byd-eang 1.23% gros / 1.06% net yn uwch
- Perfformiodd Credyd Aml-Asedau 1.86% gros / 1.43% net yn uwch
- Tanberfformiodd ARB 0.73% gros / 1.19% net
- Perfformiodd Credyd y DU 0.37% gros / 0.25% net yn uwch

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid nodi Adroddiadau Perfformiad yr Is-gronfeydd, fel y nodir uchod, fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr, 2021.

12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

13. ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG HYD AT 31 RHAGFYR 2021

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth



yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beri i Reolwyr y Gronfa fod dan anfantais mewn trafodaethau gyda benthycwyr er anfantais i'r Gronfa.

[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i Adolygiad Benthycy Global Securities ar gyfer y Chwarter sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr, 2021.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adolygiad Benthycy Global Securities fel roedd ar 31 Rhagfyr, 2021.

14. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU Ch4 2021

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Ymgysylltu Ch4 2021, a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Ymgysylltu ar gyfer Ch4 2021.

15. PENODIADAU DYRANNU MARCHNAD BREIFAT WPP

[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu adroddiad i benodi'r Dyranwyr Marchnad Breifat ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Ar ôl cwblhau'r broses gaffael, roedd y canlynol wedi cael ei argymell:

- Penodi Cynigydd 8 fel y cynigydd a ffefrir ar gyfer Dyranwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer Dyled Breifat (Lot 1) yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'r Contract Dyranu.
- Penodi Cynigydd 7 fel y cynigydd a ffefrir ar gyfer Dyranwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer Seilwaith (Lot 2) yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'r Contract Dyranu.



- Penodi Cynigydd 4, 8 ac 13 fel y cynigwyr a ffefrir ar gyfer Dyranwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer Seilwaith Penagored (Lot 3) yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'r Contract Dyrannu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo penodiad y Dyrannwr, fel y nodir uchod.

[NODER: Ar yr adeg hon yn ystod y cyfarfod bu'n rhaid i'r Cynghorydd Ted Palmer adael y cyfarfod]

16. ADRODDIADAU BUDDSODDI CYFRIFOL A RISG HINSAWDD

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd yr Is-bwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd Ch3 2021 ar gyfer is-gronfeydd canlynol Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Is-Gronfa Credyd Byd-eang
- Is-gronfa Credyd Aml-asedau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd.

CADEIRYDD

DYDDIAD

